COFNODION CYFARFOD O GYNGOR CYMUNED LLANENGAN a gynhaliwyd nos Fercher, Rhagfyr 13eg, 2017 am saith o'r gloch

PRESENNOL

Alun Jones (Cadeirydd), Gwilym Hughes (Is-gadeirydd), Edward O. Griffith, Wyn Griffiths, John Gwilym Jones, Robert M. Jones, Owi Lloyd-Jones, Catherine Ll. Morris, Erfyl W. Roberts, O. Hefin Roberts, Andrew T. Weir, Cyng. Dewi W. Roberts (Cyngor Gwynedd – Sylwebydd)

YMDDIHEURIADAU

Dylan Llwyd

ABSENNOL

William B. Williams

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod, yn arbennig Cyng. Andrew T. Weir yn dilyn ei waeledd diweddar.

1. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Datganodd Cynghorydd John Gwilym Jones fuddiant yng nghais cynllunio 9. C17/1144/39/LL – Gosod dwy garafán sefydlog ychwanegol i gynyddu niferoedd o 17 i 19 a chodi clawdd pridd – Tŷ Hir Caravan Park, Mynytho, gan ei fod yn berchennog meysydd carafannau sefydlog ei hun.

2. **CADARNHAU COFNODION**

Cynigiwyd ac eiliwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar Dachwedd 8fed, 2017 yn gywir.

3. **CEISIADAU CYNLLUNIO**

Trafodwyd y ceisiadau a ganlyn:

Cyflwynwyd sylwadau aelod o bob Ward ar geisiadau 1, 2 a 4 a datganwyd diddordeb yng nghais 3 (gweler sylwadau) erbyn y dyddiadau penodedig a ddigwyddai cyn cyfarfod mis Rhagfyr y Cyngor.

C17/0968/39/LL	Aildrefnu safle carafannau sefydlog presennol er lleoli tair (3) carafán ychwanegol ac ail-leoli dwy (2) garafán, ail-leoli ardal chwarae plant, gwella maes parcio presennol ac ardal gwasanaethu, ynghyd â thirlunio – Tŷ Newydd Caravan Park, Aber-soch **– Cefnogir**
C17/1051/39/LL	Dymchwel tŷ ac adeiladu un newydd yn ei le – Cae'r Ffynnon, Aber-soch **– Gwrthwynebir oherwydd gorddatblygiad ar y safle, dymchwel siale ag ystafell haul yn hytrach na thŷ i adeiladu un sy'n ymdebygu i ddau fynglo llawer rhy fawr iddo**
C17/1056/39/LL	Cais ar gyfer lleoli deg (10) carafán deithiol ac un sefydlog ar gyfer rheolwr, codi bloc cawodydd a thoiled, ffens atal sŵn, clawdd,

ffordd mynediad newydd a llefydd parcio i gapel gerllaw – Frondeg, Llanengan **– Ni ddanfonwyd sylwadau oherwydd y datgana'r Cyngor ddiddorddeb yn y cais fel perchennog estyniad Mynwent Capel y Bwlch**

C17/1065/39/LL — Codi uchder to ar gyfer creu gwell uchder I ystafelloedd gwely ar y llawr cyntaf ac ymestyn balconi llawr daear – Ynys Môr (Olwen), 2 Llwyn Onn, Aber-soch **– Cefnogir**

C17/1070/39/LL — Adeiladu tŷ fforddiadwy (Gwybodaeth ychwanegol ar ffurf Datganiad Cynllunio) – Tir ger Stád Cornwall, Mynytho – **Gwrthwynebir oherwydd na fuasai'r telerau yr un fath â gweddill y Stád ac nid yw'n deg â'i thrigolion. Mynegwyd siomiant hefyd, oherwydd camddealltwriaeth â'r prisiau, mai tri o'r naw tŷ yn unig a brynwyd/berchnogir gan drigolion y gymuned o gofio mai er eu budd hwy y cefnogwyd y cynllun yn wreiddiol**

C17/1092/39/LL
C17/1121/39/CR — Dymchwel lolfa haul presennol a chodi estyniad newydd – Ffermdy Machros, Bwlchtocyn **– Cefnogir**

C17/1113/39/LL — Dymchwel tŷ, modurdy a charafán sefydlog bresennol ac adeiladu tŷ a modurdy newydd – Bryn Golau, Bwlchtocyn – **Gwrthwynebir oherwydd gorddatblygiad, gan fod y tŷ bwriadedig yn sylweddol fwy na'r un presennol**

C17/1141/39/LL — Estyniad unllawr – Tŷ Ni, 111 Cae Du, Aber-soch – **Cefnogir**

C17/1144/39/LL — Gosod dwy garafán sefydlog ychwanegol i gynyddu niferoedd o 17 i 19 a chodi clawdd pridd – Tŷ Hir Caravan Park, Mynytho **– Cefnogir [Datgan Diddordeb – JGJ]**

C17/1161/39/LL — Diwygio Amod 4 ar Ganiatâd Cynllunio C15/0901/39/LL er diwygio dyluniad y tŷ arfaethedig – Tir ger Tŷ Adda, Aber-soch **– Gwrthwynebir oherwydd ei fod yn goredrych cymdogion, mae'r balconi'n sylweddol fwy na'r un yn y cais gwreiddiol ac nid oes angen grisiau 'dianc' o dŷ deulawr**

[Derbyniwyd copi, er gwybodaeth, o ohebiaeth cymdogion a anfonwyd i'r Adran Gynllunio yn gwrthwynebu'r cais.]

C17/1185/39/CC — Torri dwy goeden sy'n destun Gorchymyn Diogelu Coed – Plot ger Gorse Bank, Lôn Pen Cei, Aber-soch – **Gwrthwynebir oherwydd rhoddir amod am reswm ac mae'r coed yn iach a rhan o dirlun hanesyddol ac etifeddol ardal yr Harbwr a Phen Bennar**

4. **MATERION YN CODI**

a) **Toiledau Cyhoeddus**

i) ***Priffyrdd a Bwrdeistrefol – Toiled/au Cyhoeddus yn eich Cymuned***
Derbyniwyd prisiau gan gwmnïau eraill – maent i gyd rhywbeth yn debyg i un Healthmatic; fe'u hanfonir at Bethan Hughes, Swyddog Datblygu, er gwybodaeth a thrafodaeth bellach.
Ni chysylltwyd â'r Adran Gynllunio parthed agor caffi Machros dros y Nadolig.

ii) ***Toiled Cyhoeddus Y Bont, Aber-soch***
Derbyniwyd gohebiaeth y caeid yr uchod am bythefnos i osod llawr newydd â deunydd addas ar ei ben (dechrau Tachwedd 20fed) – credid y cwblhawyd y gwaith erbyn hyn.

b) **Cae Chwarae Aber-soch**

i) ***Cae Pêl-droed***

Derbyniwyd amcanbris arall (cynnydd o £400.00 ers un 2015) oddi wrth y contractwr ffensio ar gyfer gosod ffens newydd ar ochr Lôn Engan – tynnu y ffens bresennol a'i chlirio o'r safle yn cynnwys llogi digar a sgip (£530.00 + TAW) a chyflenwi a gosod ffens dwbl mesh tua 1.3m o uchder (£3870.00 + TAW) – i'w ystyried ar gyfer cyllideb y flwyddyn ariannol nesaf.
Derbyniwyd manylion offer gan Cyng. Dylan Llwyd; penderfynwyd ymchwilio ymhellach i brisiau offer newydd.

ii) ***Archwiliad Iechyd a Diogelwch***

Derbyniwyd amcanbris Melfyn Pritchard erbyn hyn – £585.00 + TAW. Ni all wneud y gwaith tan fis Ebrill er mwyn cael tywydd sych a heulog i sychu'r paent.

iii) ***Torri Coed***

Gofynnodd trigolyn lleol am gael torri'r coed a ddeuai trwy'r ffens ar y terfyn â Maes Awel ar Lôn Engan, gan ei bod yn berygl wrth gerdded a cheir yn gyrru lawr Allt Islwyn o Lanengan; fe'u torrwyd gan R.W. Griffith pan oedd yn tacluso'r tyfiant tu ôl i'r meinciau ar Lôn Golff – ni dderbyniwyd anfoneb.

c) **Clorian Cymru – Teledu Cylch Cyfyng**

Gosodwyd yr arwydd erbyn hyn ond, ni dderbyniwyd anfoneb.

ch) **Meddygfa Aber-soch**

- Derbyniwyd gohebiaeth y cytunodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr â chais y meddygon gau'r uchod – bu cryn sylw i'r penderfyniad yn y wasg ac ar y cyfryngau. Dywedodd y Clerc y dechreuodd lunio llythyr yn mynegi anfodlonrwydd llwyr â'r ymgynghoriad; penderfynwyd ar ôl trafodaeth, y dylid estyn gwahoddiad i'r prif swyddogion fynychu cyfarfod cyhoeddus a/neu o'r Cyngor i'w drafod ymhellach.
- Derbyniwyd ateb oddi wrth Vaughan Gething, Ysgrifennydd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru, parthed Ysgol Feddygol ym Mhrifysgol Bangor – ategodd yr hyn a ddywedodd ym mis Gorffennaf, sef y credai bod achos dros gael mwy o addysg feddygol yn y Gogledd ond, ni chafodd ei argyhoeddi bod angen Ysgol Feddygol newydd. Bwriedir i Brifysgolion Caerdydd, Abertawe a Bangor gydweithio'n agosach i sicrhau mwy o gyfleoedd o ran addysg feddygol yn y Gogledd. Llwyddwyd cytuno ar gyllid o saith miliwn yn y gyllideb ariannol nesaf i ddatblygu addysg feddygol israddedig yn y Gogledd. Diweddodd ei lythyr drwy ddwyd y buasai'n well cysylltu â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ynglŷn â'r pryderon am ddarparu gofal iechyd i drigolion Aber-soch...!

d) **5. Coed yr Allt, Aber-soch**

Ni dderbyniwyd taliad iawndâl olaf (mis Rhagfyr) y diffynnydd hyd yma.

dd) **10. Gohebiaeth: d) Cefnogaeth Gorfforaethol – Hunan*iaith***

Ymddiheurodd y Clerc am anghofio estyn gwahoddiad i swyddog fynychu cyfarfod heno i egluro'r cynllun yn iawn.

e) **10. Gohebiaeth**: a) **Un Llais Cymru (ULlC): vi)** ***Adolygiad o'r Sector Cynghorau Cymuned a Thref – Mae Angen eich Help!***

Ni dderbyniwyd ateb i'r gŵyn y cynhaliwyd un o'r saith digwyddiad ymgynghori gan ULlC ar ddiwrnod olaf y Ffair Aeaf. Derbyniwyd e-bost yn diolch i'r cynghorau a fynychodd y cyfarfodydd a chadarnhau'r camau nesaf, sef casglu'r adborth a dderbyniwyd.

f) **10. Gohebiaeth: d) Tesni Roberts, Cysylltwr Cymunedol, Gwasanaeth Cymdeithasol – Ymchwil Cymuned Llanengan**
Ni ofynnwyd am fwy o wybodaeth.

5. **MYNWENT**

a) **Dyled Ymgymerwr**
Derbyniwyd y taliad dyledus oddi wrth yr ymgymerwr cyn anfon llythyr ato i'w hysbysu na chaiff ganiatâd claddu yn y fynwent yn y dyfodol.

b) **Taliadau Claddu ar Gyfer Plant (Un Llais Cymru)**
Gwelwyd o restr prisiau Cynghorau Cymuned Llanberis a Llandwrog bod claddu plentyn marwanedig yn ddi-dâl ac un hyd at bedair oed yn yr olaf. Ni chysylltwyd â Chynghorau Aberdaron a Llanbedrog eto.

6. **CYFRIFON**

a) **Praesept 2018 – 2019**
Derbyniwyd ffurflen gais praesept 2018 – 2019 – angen ei dychwelyd erbyn Ionawr 26ain. Penderfynwyd ei thrafod yn fanylach yng nghyfarfod mis Ionawr.

b) **Archwiliwr Mewnol**
Ni chysylltwyd â Luned Fôn Jones, aelod o Dîm Archwilio Mewnol Cyngor Gwynedd.

c) **John Roberts Ffestiniog – Glanhau Afon Soch**
Derbyniwyd gohebiaeth bellach oddi wrth yr uchod parthed yr anfoneb nas talwyd. Yn dilyn trafodaeth, penderfynwyd y talai'r Cyngor y ddyled hon; ni dderbyniwyd anfoneb am fesuriadau tir y Cyngor er yr anfonid hwy fisoedd yn ôl bellach. Deallwyd y gwrthoda'r ddau dirfeddiannwr arall â thalu eu dyled hwy – awgrymwyd wrth y cwmni y dylai anfon llythyr yn atodi'r anfoneb atynt yn hytrach na'u ffonio.

ch) **Llywodraeth Cymru – Gwariant Adran 137: Y Terfyn ar gyfer 2018 – 2019**
Derbyniwyd gohebiaeth yn nodi mai £7.86 yw'r swm priodol at ddibenion Adran 137(4)(a) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

7. **MATERION CYNLLUNIO**

a) **Rheiliau Datblygiad Pen-y-Bont, Aber-soch**
Derbyniwyd e-bost odd wrth Cyng. Dewi Wyn Roberts yn nodi y cafodd sgwrs â Rheolwr Datblygiad yr Harbwr a bwriada drefnu torri'r coed rhwng y ddau ddatblygiad. Nododd hefyd y costiodd y rheiliau metel fwy na'r wal ac y bodlonant ofynion iechyd a diogelwch trafnidiaeth – cafwyd trafodaeth â'r Adran Briffyrdd. Derbyniwyd copi o lythyr, er gwybodaeth, a anfonodd Wendy Lloyd Jones i'r Adran Gynllunio yn mynegi siomedigaeth am ddatblygiad Pen-y-Bont – anfonodd lun o'r tŷ gwreiddiol hefyd – ac eraill yn y pentref. Noda y creda'n gryf mai'r Cyngor Cymuned

ddylai gael y gair olaf ar bob caniatâd cynllunio, gan mai'r bobl leol sy'n gwir werthfawrogi a deall eu hardal; cytunir yn llwyr â hi.

8. **MATERION PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL**

a) **Y Fach – Cynllun Parcio**
Ni dderbyniwyd ateb i'r sylwadau o fynegi siomedigaeth na fwriada'r Adran ddileu'r ffi am barcio 24awr a gofyn a fwriedir digolledu meysydd carafannau drwy ostwng eu trethi busnes pan fydd carafannau ac ati'n aros yno dros nos am £7.50.

b) **Blwch Post Llangian**
Deallwyd y gosodir yr uchod o flaen Neuadd yr Eglwys cyn bo hir – disgwylir caniatâd swyddogol o bencadlys Swyddfa'r Post.

c) **Torri Gwair Ochr Ffordd**
Anghofiwyd cysylltu i ofyn am hyn, yn arbennig ar gyfer y llwybr troed rhwng Sarn Bach ac Aber-soch.

ch) **Gwasanaeth Cyfreithiol – Rhybudd Cau Lôn Engan ger Gwesty Riverside, Aber-soch**
Rhybudd y caeid yr uchod am ddiwrnod tra roedd Dŵr Cymru yn ailwynebu'r gwaith a wnaethpwyd i gysylltu'r datblygiad newydd.

9. **MATERION HAWLIAU TRAMWY – LLWYBRAU CYHOEDDUS**

a) ***Torri'r Llwybrau 2017***
Ni chysylltwyd â Dewi Wyn Owen, Uwch Swyddog Hawliau Tramwy, parthed ailgategoreiddio llwybrau'r gymuned.

b) **Gwasanaeth Cyfreithiol – Gorchymyn Cyngor Gwynedd (Rhan o Lwybr Cyhoeddus Rhif 55 yng Nghymuned Llanengan) (Gwaharddiad Defnydd Dros Dro) 2017 – Ail Rybudd**
Daeth y Gorchymyn i rym ar Dachwedd 13eg a phery am chwe mis er y disgwylir cwblhau'r gwaith o fewn tua 19 diwrnod.

10. **GOHEBIAETH**

a) **Un Llais Cymru (ULlC)**

i) ***Pwyllgor Ardal Arfon/Dwyfor***
Fe'i cynhelir yng Nghaernarfon heno – anfonwyd ymddiheuriad.

ii) ***Bwletin mis Tachwedd***
Argraffwyd 'Diddymu Ffïoedd Claddu Plant yng Nghymru' ac ymateb ULl i Arolwg 2018 o Etholaethau Seneddol yng Nghymru ac Ymgynghoriad Bil y Gymraeg er gwybodaeth.

iii) ***Ymgynghoriad Cyfraith Cynllunio yng Nghymru***
Cynhalia Comisiwn y Gyfraith adolygiad o'r Gyfraith Gynllunio yng Nghymru – angen sylwadau erbyn Mawrth 1af, 2018.

b) **O Ddrws i Ddrws – Bws Arfordir Llŷn**
Gwahoddiad i ddathlu llwyddiant yr uchod fore Gwener, Rhagfyr 15fed rhwng 10.30 y bore a 12.30 y pnawn – neb yn dymuno mynychu.

c) **Gwasanaeth Ieuenctid – Ymgynghoriad ar Ailfodelu'r Gwasanaeth**
Angen sylwadau erbyn Rhagfyr 22ain.

ch) **Cartrefi Cymunedol Gwynedd – 29 Parciau, Mynytho**
Arddangoswyd hysbyseb yr uchod yn hysbysfyrddau'r Cyngor.

d) **Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol (SLCC)**

i) ***Adnewyddu Aelodaeth***
Penderfynwyd ei adnewyddu – gweler 12. Cadarnhau Taliadau a Derbyniadau isod.

ii) ***Holiadur Ymgyrch Tynnu Treth Fusnes oddi ar Doiledau Cyhoeddus***
Dyddiad cau – Rhagfyr 15fed – ymatebwyd eisoes.

iii) ***Ymchwiliad Cymdeithas Tiroedd Agored am Diroedd Comin Colledig***
Ymchwiliad gan yr uchod a lansiwyd i chwilio am dir comin a ddylid ei gofrestru a'i warchod.

dd) **Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru – Diweddariad**
Llythyr yn egluro sefyllfa ariannol yr Heddlu.

11. **DYFARNIADAU CYNLLUNIO**

C17/0628/39/LL	Dymchwel tŷ presennol a chodi un newydd yn ei le – Ynysfor Bach, Aber-soch **– Caniatawyd ag amodau**
C17/0825/39/AM	Adeiladu tŷ – Plot ger Gorse Bank, Lôn Pen Cei, Aber-soch **– Gwrthodwyd**
C17/0925/39/LL	Diwygio Amod 2 ar Ganiatâd Cynllunio C17/0318/39/LL er adeiladu'r datblygiad yn unol â chynlluniau diwygiedig – Tir ger Deudraeth, Pen Bennar, Aber-soch **– Caniatawyd ag amodau**
C17/0927/39/AC	Rhyddhau Amodau 3 (Cytuno Llechi), 4 (Cytuno Gorffeniad Allanol) a 6 (Cytuno Manylion Draenio) Caniatâd Rhif C16/1105/39/LL – The Warren, Aber-soch **– Caniatawyd yn ddi-amodol**
C17/0964/39/RC	Diddymu Cytundeb Adran 106 sy'n rhwymo'r eiddo fel tŷ fforddiadwy angen lleol – Awel Neigwl, Sarn Bach **– Caniatawyd ag amodau**
C17/1000/39/AC	Rhyddhau Amodau 3 (Cytuno Gorffenniad To) a 4 (Cytuno Gorffeniad Allanol) Caniatâd C16/1085/39/LL – Tŷ Mawr, Aber-soch **– Caniatawyd yn ddi-amodol**
C17/1036/39/LL	Dymchwel estyniad unllawr cefn presennol ac adeiladu un deulawr cefn newydd, ynghyd ag addasiadau – Berwyn, Lôn Golff, Aber-soch **– Caniatawyd ag amodau**
C17/1072/39/DA	Diwygiad di-faterol i gais C16/1571/39/LL er ychwanegu un nenolau a drws gwydr – Cyn-fanc NatWest, Aber-soch **– Caniatawyd ag amodau**

12. **CADARNHAU TALIADAU A DERBYNIADAU**

Taliadau
Cadarnhawyd talu cyflog mis Rhagfyr a chostau gweinyddol (Rh/S 002113 a 002115) y Clerc, ynghyd â'r taliadau a ganlyn:

a) Casglwr Trethi – £7.16 (Rh/S 002112 – Talu Wrth Ennill)

b) Jewson Ltd. – £153.65 (Rh/S 002104 – Coed Nadolig)
c) SLCC – £96.00 (Rh/S 002116 – Tâl Aelodaeth 2018)
ch) Canolfan Gymdeithasol Llanengan – £63.00 (Rh/S 002117 – Llogi'r Ganolfan)

Derbyniadau

a) Toiledau – £17.00 (Tâl Mynediad)
b) G.W. Parry – £270.00 (Bedd Newydd)
c) Cyngor Gwynedd – £2438.00 (Ad-daliad Torri Llwybrau'r Gymuned)

13. **DYDDIAD AC AMSER Y CYFARFOD NESAF**

Nos Fercher, Ionawr 10fed, 2018 am saith o'r gloch